

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 25 Medi 2018 Kath Thomas – Dipwrwy Glerc
Amser: 09.00 0300 200 6565
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 84)

2 Deisebau newydd

2.1 P-05-827 Y ffyrdd o amgylch Trago Mills / Parc Manwerthu Cyfarthfa
(Tudalennau 85 – 91)

2.2 P-05-829 Gwahardd Eitemau Plastig Untro yng Nghymru
(Tudalennau 92 – 100)

2.3 P-05-830 Ailagor Canolfan Feddygol Dewi Sant, Pentwyn, yn Amser Llawn
(Tudalennau 101 – 109)

2.4 P-05-831 Rhowch ddiwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth
ariannol a roddir i ddioddefwyr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru
(Tudalennau 110 – 118)

2.5 P-05-832 Diwygio'r Cod Derbyn i Ysgolion ynghylch Plant a Anwyd yn ystod
yr Haf
(Tudalennau 119 – 141)

2.6 P-05-828 Rhagdybiaeth o blaid Ysgolion Gwledig
(Tudalennau 142 – 156)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-05-794 Gostwng yr Oedran Pleidleisio i Un ar Bymtheg
(Tudalennau 157 – 161)



3.2 P-05-798 Gwasanaethau cymorth i ddynion sy'n ddioddefwyr trais yn y cartref i gael eu rhedeg a'u cyllido'n annibynnol

(Tudalennau 162 – 170)

Amgylchedd

Mae'r ddwy ddeiseb a ganlyn wedi'u grwpio ar gyfer eu hystyried gyda'i gilydd

3.3 P-04-399 Arferion lladd anifeiliaid

(Tudalen 171)

3.4 P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

(Tudalennau 172 – 176)

3.5 P-05-717 Sefydlu Hawliau Mynediad Cyhoeddus Statudol i Dir a Dŵr Mewndirol at Ddibenion Hamdden a Dibenion Eraill

(Tudalennau 177 – 183)

3.6 P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau yng Nghymru

(Tudalennau 184 – 191)

Mae'r ddwy ddeiseb a ganlyn wedi'u grwpio ar gyfer eu hystyried gyda'i gilydd

3.7 P-05-809 Is-ddeddfau Pysgota arfaethedig Newydd a methiannau Cyfoeth Naturiol Cymru

(Tudalennau 192 – 194)

3.8 P-05-810 Rhowch Gyfle i Glybiau Pysgota Cymru ac Eog a Brithyll y Môr

(Tudalennau 195 – 219)

3.9 P-05-813 Gwahardd y DEFNYDD O FAGLAU LARSEN (maglau dal sawl math o frân)

(Tudalennau 220 – 235)

3.10 P-05-815 Rheoli'r Diwydiant Dofednod Dwys Sy'n Ehangu'n Gyflym yng Nghymru

(Tudalennau 236 – 249)

Economi a Thrafnidiaeth

Mae'r tair deiseb a ganlyn wedi'u grwpio ar gyfer eu hystyried gyda'i gilydd

3.11 P-05-721 Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes

(Tudalen 250)

3.12 P-05-767 Cefnffordd yr A487 Trwy Dre Taliesin_Angen Brys am Fesurau Effeithiol i Arafu Traffig

(Tudalen 251)

3.13 P-05-792 Deiseb i ymestyn y terfyn cyflymder 40mya ym Mlaenporth

(Tudalennau 252 – 255)

3.14 P-05-820 Peidiwch â chymryd Castell-nedd oddi ar y brif reilffordd

(Tudalennau 256 – 259)

3.15 P-05-823 Gostwng y terfyn cyflymder ar yr A487 ym Mhenparcau

(Tudalennau 260 – 262)

Iechyd

3.16 P-05-732 Amseroedd Aros Annerbyniol ar gyfer Cleifion y GIG yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Wrecsam/ Ysbyty Wrecsam Maelor

(Tudalennau 263 – 269)

3.17 P-05-751 Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant

(Tudalennau 270 – 276)

3.18 P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu – adnabyddiaeth a chefnogaeth

(Tudalennau 277 – 289)

3.19 P-05-795 Achos Niwsans neu Aflonyddwch ar safleoedd y GIG

(Tudalennau 290 – 291)

3.20 P-05-826 Mae sir Benfro yn dweud NA!! i gau adran damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg!

(Tudalennau 292 – 294)

Addysg

3.21 P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU

(Tudalennau 295 – 304)

3.22 P-05-805 Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi

(Tudalennau 305 – 311)

3.23 P-05-821 Ailgyflwyno cyllid cymorth addysgol i awdurdodau lleol ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr

(Tudalennau 312 – 319)

Cyllid

3.24 P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth!

(Tudalennau 320 – 324)

3.25 P-05-822 Gwahardd gwellt plastig (wrth yfed llaeth) yn ein hysgolion

(Tudalennau 325 – 328)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod am weddill busnes heddiw:

5 Adroddiad Drafft – P-05-690 Resurfacing of the A40 Raglan–Abergavenny Road

(Tudalennau 329 – 338)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-05-827 Y ffyrdd o amgylch Trago Mills/Parc Manwerthu Cyfarthfa

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rowan Powell, ar ôl casglu 141 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i edrych ar y mater o draffig cynyddol ar yr A470 o gwmpas cyffiniau Trago Mills a Pharc Manwerthu Cyfarthfa, a rhoi system draffig newydd ar waith i liniaru'r swm o draffig a welir yn ystod yr oriau brig, a all wedyn ddatrys y problemau parhaus sy'n wynebu trigolion.

Agorodd Trago Mills ei ddrysau oddeutu pythefnos yn ôl i'r cyhoedd. Byth ers i Trago Mills agor, cafwyd problemau cyson o ran traffig cynyddol yng nghyffiniau Trago Mills a Pharc Manwerthu Cyfarthfa. Yn ogystal ag yn ystod y penwythnosau, mae hefyd yn digwydd yng nghanol yr wythnos.

Pan ddaethpwyd â'r mater hwn i sylw Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn wreiddiol beth amser yn ôl cyn i Trago Mills agor, dywedodd yn bersonol mewn llythyr y byddai'r A470 yn gallu cymryd pwysau'r traffig i mewn ac allan o'r ardal, ond yn anffodus nid dyma'r sefyllfa. Nid yw'r traffig sy'n cronni ar brif gylchfan yr A470 yn gallu atal y llwyth traffig sy'n mynd yn uniongyrchol i Barc Manwerthu Cyfarthfa a Trago Mills. Mae hyn yn anghyfleus i'r trigolion hynny sydd eisoes yn byw yn agos at yr ardal, ac mae hefyd yn effeithio ar fusnesau lleol yn yr ardal ac yn effeithio ar yr economi oherwydd bod ymwelwyr yn osgoi'r ardal.

A wnewch chi edrych ar y mater dan sylw eto gan fod angen gweithredu'n uniongyrchol i ddatrys y broblem hon.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Merthyr Tudful a Rhymni
- Dwyrain De Cymru

Deiseb: Ffyrdd o amgylch Trago Mills / Parc Manwerthu Cyfarthfa

Y Pwyllgor Deisebau | 25 Medi 2018
Petitions Committee | 25 September 2018

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-827

Teitl y ddeiseb: Ffyrdd o amgylch Trago Mills / Parc Manwerthu Cyfarthfa

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i edrych ar y mater o gynnydd mewn traffig ar yr A470 o amgylch cyffiniau Trago Mills a Pharc Manwerthu Cyfarthfa a rhoi system draffig newydd ar waith i liniaru'r swm o traffig a welir yn ystod yr oriau brig, a all, wedyn, ddatrys y problemau parhaus y mae trigolion yn eu hwynebu.

Agorodd Trago Mills ei drysau i'r cyhoedd oddeutu pythefnos yn ôl, ac ers i Trago Mills agor, bu problemau cyson o ran cynnydd yn y traffig yng nghyffiniau lleol Trago Mills a Pharc Manwerthu Cyfarthfa, nid yn unig y mae hyn yn digwydd ar benwythnosau ond mae hefyd yn digwydd ganol yr wythnos.

Pan ddaeth y mater hwn i sylw Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn wreiddiol beth amser yn ôl cyn agor Trago Mills, dywedodd yn bersonol mewn llythyr y byddai'r A470 yn gallu ymdopi â phwysau traffig i mewn i'r ardal, ac allan ohoni ond, yn anffodus, nid yw hyn yn wir. Nid yw'r cynnydd mewn traffig ar brif gylchfan yr A470 yn gallu ymdopi â'r llwyth traffig sy'n mynd yn uniongyrchol i Barc Manwerthu Cyfarthfa a Trago Mills. Nid yn unig mae hyn yn anghyfleustra i'r preswylwyr hynny sydd eisoes yn byw yn agos at yr ardal, ond mae hefyd yn effeithio ar fusnesau lleol yn yr ardal ac yn effeithio ar yr economi oherwydd bod ymwelwyr yn osgoi'r ardal.

A allwch chi ystyried y mater dan sylw eto gan fod angen gweithredu'n uniongyrchol i ddatrys y broblem hon.

Y cefndir

Rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru. Hi sy'n gyfrifol am gynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith, gan gynnwys yr A470, a gaiff ei [disgrifio gan Lywodraeth Cymru](#) fel a ganlyn: "ein prif gefnffordd sy'n cysylltu gogledd a de Cymru." Mae map o rwydwaith cefnffyrdd Cymru [ar gael ar-lein](#).

Er mai Gweinidogion Cymru sydd â'r cyfrifoldeb statudol dros y rhwydwaith cefnffyrdd, dau asiant cefnffyrdd Cymru sydd â chyfrifoldeb dros eu gweithredu o ddydd i ddydd, cynnal a chadw a mân welliannau i'r rhwydwaith:

- [Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru](#); ac
- [Asiant Cefnffyrdd De Cymru](#).

Lleoliad Parc Manwerthu Cyfarthfa a Trago Mills

Lleolir [Parc Manwerthu Cyfarthfa](#) a'r [siop Trago Mills](#) ym Merthyr Tudful gyda'r mynedfeydd i'r ddau safle o gylchfan Ffordd Abertawe ar yr A470.

Agorwyd Parc Manwerthu Cyfarthfa i'r cyhoedd yn wreiddiol yn 2005 ac agorodd Trago Mills yn 2018.

Parc Manwerthu Cyfarthfa

Rhoddwyd caniatâd cynllunio i Barc Manwerthu Cyfarthfa yn 2003 ar gyfer datblygu'r safle a agorodd yn 2005.

Yn 2012 cyflwynwyd cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ehangu'r parc manwerthu. [Cafodd adroddiad ei ystyried gan y Cyngor llawn yn 2013](#) (PDF, 3.91KB) a rhoddwyd caniatâd cynllunio.

Roedd Asesiad Trafnidiaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r cais i ymestyn y safle, yn ystyried effaith bosibl traffig cynyddol a nodwyd:

byddai'r datblygiad arfaethedig ar agor yn 2015 ac mae'r dadansoddiad o alluoedd cyffordd yn ystyried effeithiau ar y briffordd tan 2030, er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i ddiwallu unrhyw dwf yn y llif traffig presennol. Cydnabyddir bod yr asesiad hwn yn ystyried datblygiad ymrwymedig arall, sef Trago Mills.

Roedd y cais cychwynnol i ymestyn y safle yn cynnwys gwaith priffyrdd i gylchfan A470 Ffordd Abertawe, a gafodd ei wrthod gan Lywodraeth Cymru, fel awdurdod priffyrdd y rhwydwaith cefnffyrdd. Fodd bynnag, [fel y nodwyd yn y cyfryngau](#), cyflwynwyd a chymeradwywyd cais diwygiedig. Fel y nodwyd yn adroddiad y Cyngor, yn dilyn cyflwyno cynlluniau ar gyfer y gwaith priffyrdd diwygiedig:

ystyriwyd unrhyw bryderon diogelwch ffyrdd neu effaith i'r cyffyrdd ar gylchfan yr A470(T) yn fanwl gan Lywodraeth Cymru. Cydnabyddir yn ymateb Adran Priffyrdd Llywodraeth Cymru i'r cais, ei bod yn

fodlon â'r cynllun arfaethedig ac nad yw wedi codi unrhyw wrthwynebiadau, yn ddarostyngedig i amodau priodol.

Cafodd y gwelliannau i'r gylchfan eu gweithredu wedyn yn 2014 ac roeddent yn cynnwys lonydd ychwanegol i gyrraedd y gylchfan, ynghyd ag arwyddion a llinellau ychwanegol i wella llif y traffig.

Trago Mills

Cafodd y tir lle mae safle Trago Mills ei gaffael gan y datblygwr yn y 1990au. Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ym 1995 gan yr awdurdod cynllunio lleol (awdurdod cynllunio Morgannwg Ganol ar y pryd) a dechreuodd y gwaith daear ar y safle [yn 2005](#). Yn 2010, ystyriodd yr awdurdod cynllunio lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) [a chymeradwyodd gais i ymestyn yr adeilad](#) (PDF, 1.42MB) i gynnwys:

ardal storio a manwerthu ychwanegol, canolfan arddio, adeilad llwytho a thŷ planhigion ynghyd â mân newidiadau i fanylion y to a gwelliannau o ran hygrychedd.

Ymgynghorwyd ag Is-adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar y cynlluniau i ymestyn y safle arfaethedig a chodwyd pryderon yn wreiddiol ynghylch yr Asesiad Trafnidiaeth a oedd yn cyd-fynd â'r cynlluniau. Ar ôl hynny, cynhaliodd Llywodraeth Cymru brofion ynghylch faint o draffig sydd ar y gylchfan a ddefnyddir i gael mynediad i'r safle ei hun a daeth i'r casgliad:

ni fyddai llif diogel a rhydd traffig y gefnffordd yn cael ei amharu. O ganlyniad [nid oes] dim gwrthwynebiad i'r estyniad arfaethedig i Trago Mills.

Dechreuodd y gwaith ar strwythur yr adeilad yn 2016 ac ym mis Ebrill 2018 cafodd y siop ei hagor i'r cyhoedd.

Fel yr [adroddwyd yn y cyfryngau](#), bu penwythnos agoriadol safle Trago Mills yn llawn tagfeydd wrth i bobl ymweld â'r siop newydd.

Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Fel yr amlinellir, ymgynghorwyd ag Is-adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar effeithiau trafndiaeth ehangu'r ddau safle fel rhan o'r ceisiadau cynllunio perthnasol.

Mae [Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015](#) (y CCTC) Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni'r canlyniadau a nodir yn [Strategaeth Drafnidiaeth Cymru](#) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2020 (y tymor byr) a thu hwnt (y tymor canolig). Mae'r cynllun yn darparu amserlenni ar gyfer ariannu a chyflawni cynlluniau a ymgwymerir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n nodi ffynonellau cyllido posibl ac yn rhestru'r prosiectau a fydd yn ceisio cyllid o dan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae [diweddariad y Cynllun yn 2017](#) (PDF, 1.05MB) yn amlinellu rhaglen 'wasgfa'. sy'n cynnwys ystyried opsiynau ac atebion ar gyfer Gwelliannau i'r coridor rhwng Ffynnon Taf a Merthyr ar yr A470.

Yn dilyn agor safle Trago Mills, cafodd y broblem tagfeydd traffig yn yr ardal [ei chodi yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Mai 2018](#). Dywedodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James AC, fod Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaethau mewn perthynas â thraffig ar y rhan hon o'r A470. Dywedwyd:

Mae'r darn o'r ffordd o gwmpas Trago Mills wrthi'n cael ei ymchwilio a'i arfarnu y unol â gofynion canllawiau arfarnu trafndiaeth Cymru, a adnabyddir fel WelTAG. Mae seibiant yn yr astudiaethau ar hyn o bryd tra bod y patrymau traffig a'r galw ansefydlog yn dychwelyd i'r amodau cyfartalog ar ôl agor siop Trago Mills, y gwyddom ei fod wedi cynyddu galw yn sylweddol.

Disgwylir i'r cyfnod ymsefydlu bara tua chwe mis, ac ar yr adeg honno bydd yr astudiaeth yn aildechrau trwy brofi tueddiadau a ragwelir gyda'r rhai sy'n hysbys ar ôl agor Trago Mills. Bydd y profion sensitifrwydd yn hysbysu'n well priodoldeb yr atebion tymor hwy a gynigir. Ar ôl i'r astudiaethau cyfnod 2 ar hyd y coridor gael eu cwblhau a'u harfarnu, bydd ymyraethau trafndiaeth i fynd i'r afael â thagfeydd yn cael sylw. Disgwylir i hynny gael ei gwblhau erbyn dechrau 2019, a cheir mesurau tymor canolog i fwrw ymlaen â nhw yn y cyfamser.

Mae llythyr Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau hefyd yn amlinellu'r pwyntiau a wnaeth Arweinydd y Tŷ, bod Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaeth i ymchwilio i lefelau tagfeydd yn yr ardal. Mae'r llythyr yn datgan:

Byddwn yn gwybod pa gynlluniau trafndiaeth fydd yn cael eu defnyddio i ddatrys y broblem tagfeydd ar yr A470 ar 61 cynnal yr astudiaethau cam 2 ar hyd y coridor. Disgwylir i'r gwaith Cam 2 ddod i ben yn gynnar yn 2019.

O ran caniatâd cynllunio ar gyfer safle Trago Mills, cydnabu Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip hefyd [yn y Cyfarfod Llawn](#):

gwnaed y penderfyniad ynghylch caniatâd cynllunio ym 1994 gan awdurdod cynllunio Morgannwg Ganol ac roedd yn cynnwys gwelliannau i'r briffordd a oedd yn briodol i raddfa'r datblygiad ar y pryd, ond, fel y mae'r Aelod wedi ei amlygu, mae'r sefyllfa honno wedi newid i raddau helaeth iawn. Felly, bydd yr astudiaethau yn llywio gwelliannau i'r ffordd ar ôl i'r traffig ymsefydlu unwaith eto.



Eich cyf/Your ref P-05-827
Ein cyf/Our ref KS/02309/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

25 Awst 2018

Annwyl *David,*

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf ynghylch P-05-827 Ffyrdd o gwmpas Trago Mills / Parc Adwerthu Cyfarthfa.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal astudiaeth o lefelau'r tagfeydd ar yr A470 yng nghyffiniau Cylchfan Ffordd Abertawe. Bydd yr astudiaeth yn ystyried effaith siop newydd Trago Mills. Fel rhan o'r astudiaeth, byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid fel Cyngor Merthyr Tudful, sef yr Awdurdod Priffyrdd sy'n gyfrifol am y rhwydwaith ffyrdd lleol.

Bwrir ymlaen â'r atebion ffyrdd sydd wedi cael eu harfarnu, sy'n cynnig y gwerth gorau ac y barnwyd bod eu hangen, hynny yn unol â phrosesau Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r gwaith cynllunio cyn agor siop Trago Mills ar 21 Ebrill, gofynnwyd am gyfraniad nifer o asiantaethau oherwydd nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd. Rydym wedi gosod arwyddion negeseuon dros dro ac wedi defnyddio arwyddion negeseuon newidiol i roi gwybod i yrwyr am unrhyw oedi a ragwelir ar y darn hwn o'r A470. Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth am y traffig hefyd ar wefan Traffig Cymru a'r cyfryngau cymdeithasol i helpu gyrwyr i gynllunio'u teithiau. Rydym wedi estyn gwasanaeth y Swyddogion Traffig ac mae'r heddlu wedi bod yn bresennol yn yr ardal i helpu i reoli llif y traffig ar adegau prysur.

Gwaetha'r modd, ni chafwyd digon o amser i baratoi cynllun Parcio a Theithio cyn agor y siop ac rwy'n gwerthfawrogi'r pryderon a fynegwyd. Ond gallaf eich sicrhau bod fy swyddogion yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i edrych ar atebion tymor byr a chanolig ymarferol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 90
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wrthi'n ymchwilio i'r darn o'r A470 sydd o gwmpas Trago Mills ac yn ei arfarnu yn unol â Chanllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Gan fod patrymau a gofynion y traffig wedi'u hansefydlogi ers agor siop Trago Mills, rydym wedi atal yr astudiaeth am y tro nes bod amodau cyffredin yn dychwelyd. Disgwylir i'r cyfnod 'sefydlogi' hwn bara rhyw 6 mis. Bryd hynny, byddwn yn ailddechrau'r astudiaeth trwy gloriannu'r tueddiadau a ragwelir ar sail y ffigurau hysbys ers agor Trago Mills. Bydd canlyniadau'r profion hyn yn ein helpu i benderfynu pa atebion tymor hir fyddai fwyaf priodol.

Byddwn yn gwybod pa gynlluniau trafndiaeth fydd yn cael eu defnyddio i ddatrys y broblem tagfeydd ar yr A470 ar ôl cynnal yr astudiaethau cam 2 ar hyd y coridor. Disgwylir i'r gwaith Cam 2 ddod i ben yn gynnar yn 2019. Caiff mesurau tymor byr i ganolig eu cynnal yn y cyfamser.

Yn gywir



Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Eitem 2.2

P-05-829 Gwahardd Eitemau Plastig Untro yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ban Plastic Straws Wales, ar ôl casglu 161 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cymru i wahardd pob eitem blastig untro yng Nghymru. Amcangyfrifir bod y DU ac UDA yn unig yn taflu tua 550 miliwn o wellt plastig bob dydd. Er bod pob un ond yn cael ei ddefnyddio am gyfartaledd o 20 munud yn unig, maent yn cymryd canrifoedd i bydru. Yn ystod ymgyrch lanhau gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol y llynedd, ar gyfartaledd, canfu 138 o ddarnau o wastraff yn gysylltiedig â bwyd a diod ar bob 100m o draethau'r Deyrnas Unedig.

Mae angen atal hyn ac mae angen i'r amgylchedd fod yn flaenoriaeth.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gwahardd Eitemau Plastig Untro yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 25 Medi 2018
Petitions Committee | 25 September 2018

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-829

Teitl y ddeiseb: Gwahardd Eitemau Plastig Untro yng Nghymru

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cymru i wahardd pob eitem blastig untro yng Nghymru. Amcangyfrifir bod y DU ac UDA yn unig yn taflu tua 550 miliwn o wellt plastig bob dydd. Er bod pob un ond yn cael ei ddefnyddio am gyfartaledd o 20 munud yn unig, maent yn cymryd canrifoedd i bydru. Yn ystod ymgyrch lanhau gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol y llynedd, ar gyfartaledd, canfu 138 o ddarnau o wastraff yn gysylltiedig â bwyd a diod ar bob 100m o draethau'r Deyrnas Unedig.

Mae angen atal hyn ac mae angen i'r amgylchedd fod yn flaenoriaeth.

Y cefndir

Mae plastigion untro, neu blastigion a deflir i ffwrdd, wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio unwaith, ac yna'u taflu, neu eu hailgylchu. Maent yn cynnwys eitemau fel poteli plastig, gwellt yfed, cwpanau coffi a deunydd pecynnu bwyd brys. Amlygodd y sylw diweddar ar y cyfryngau, yn arbennig gan y gyfres [Blue Planet II](#) y BBC, faint o weddillion plastig sydd yn ein cefnforoedd o ganlyniad i'n harfer o 'daflu' pethau i ffwrdd. Amlygir effaith plastig untro ar yr amgylchedd morol gan y ffaith ei fod mor gyffredin mewn canlyniadau arolygon sbwriel ar ein traethau. Dangosodd Adroddiad [Beachwatch y Gymdeithas Cadwraeth Forol](#) yn 2017 mai darnau bach o blastig oedd yr eitemau a ganfuwyd amlaf ar draethau ledled y DU.

Roedd adroddiad yn 2017, sef [Plastig Untro a'r Amgylchedd Morol](#) (Saesneg yn unig) gan [Eunomia](#) ar gyfer [Seas at Risk](#), yn cyfrif faint o wastraff plastig untro a oedd 'ar hyd y lle'. Mae prif ganfyddiadau'r gwaith ymchwil yn cynnwys y canlynol:

- nid oes angen i lawer o'r eitemau hyn gael eu gwneud o blastig (e.e. mae dewisiadau eraill, fel gwydr a phapur ar gael), tra bod eitemau eraill yn cael eu defnyddio'n ddiangen (e.e. gwellt yfed);
- mae cefnogaeth gref a brwd gan y cyhoedd i gamau i leihau'r defnydd o blastig, ac mae'r gefnogaeth yn cynyddu ar ôl cyflwyno camau;

- mae atebion ar gael ar gyfer defnyddio llai o blastigion untro, ac fe'u defnyddiwyd mewn llawer o fannau ledled y byd; a
- byddai lleihau'n fawr y defnydd o'r prif eitemau plastig untro, yn ei hanfod, yn dileu ffynhonnell sylweddol o lygredd morol yn holl foroedd Ewrop.

Roedd adroddiad gan Eunomia, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018, sef [Dewisiadau ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd yng Nghymru](#), yn amcangyfrif bod "cyfanswm o 404 miliwn o wellt yn cael eu defnyddio bob blwyddyn" yng Nghymru, ac "mae hyn gyfwerth â sgil-gynhyrchion gwastraff o ryw 150 tunnell o ddeunydd". Aiff ymlaen i ddweud:

Mae'r rhan fwyaf o wellt yfed wedi'u gwneud o bolypropylen, sy'n ailgylchadwy, ond nid oes llawer o'r cynhyrchion hyn yn cael eu gwahanu ar gyfer ailgylchu. Heb ddata pellach, rydym wedi tybio bod y cyfraddau ailgylchu ar gyfer y cynhyrchion hyn yn debyg i'r rhai ar gyfer cwpanau untro, sef 5%, ac felly mae 7.5 tunnell o wellt yn cael eu hailgylchu bob blwyddyn yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn amcangyfrif costau diwedd oes ar gyfer nifer o eitemau untro yng Nghymru. Amcangyfrifir mai 'Cyfanswm Cost Gweddilliol Trefol' defnyddio gwellt plastig yng Nghymru yw £22,566, sef cost o 0.01c yr eitem. Dywed hefyd, fodd bynnag, oherwydd natur 'ar-hyd-y-llle' y gwellt, y caiff oddeutu 13 tunnell ohonynt eu taflu i finiau sbwriel bob blwyddyn. Amcangyfrifir bod hyn yn costio £29,430, sef cost o 0.08c yr eitem.

Treth plastig untro

Nod unrhyw dreth ar blastig untro fyddai annog pobl i ddefnyddio llai ohono. Mae polisi gwastraff (gan gynnwys ailgylchu) yn fater datganoledig. Felly, mae Llywodraeth y DU yn datblygu polisiau ar gyfer Lloegr a chyfrifoldeb y gweinyddiaethau datganoledig yw datblygu a gweithredu eu polisiau a'u dulliau eu hunain, o fewn fframwaith gofynion yr UE. Mae strategaeth [Tuag at Ddyfodol Diwastraff](#) (2010) Llywodraeth Cymru yn nodi ei pholisi yn y maes hwn.

Byddai codi treth ar blastig untro yn cyd-fynd â Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff Llywodraeth Cymru drwy gyflawni blaenoriaethau Gweinidogion ar gyfer datblygu '[economi gylchol](#)', lle nad yw plastigion byth yn wastraff ac maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi.

Codi tâl am fagiau siopa

Mae lleihau'r defnydd o blastig untro drwy drethu eisoes wedi'i gyflwyno yng Nghymru yn sgîl [Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro \(Cymru\) 2010](#). Ar 1 Hydref 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf i gyflwyno gofyniad statudol i godi tâl am y rhan fwyaf o fagiau siopa untro. Ers hynny, mae'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr wedi cyflwyno dulliau tebyg o godi isafswm o 5c am bob bag plastig a ddefnyddir.

Yn wreiddiol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gytundeb gwirfoddol a oedd yn annog manwerthwyr i roi eu derbyniadau net i achosion da. Fodd bynnag, mae [Deddf yr Amgylchedd](#)

[\(Cymru\) 2016](#) bellach yn ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr roi eu derbyniadau net o werthiant bagiau siopa at ddibenion elusennol sy'n ymwneud â diogelu neu wella'r amgylchedd, ac sydd o fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol i Gymru gyfan neu unrhyw ran o Gymru. Bwriedir i hyn liniaru effaith y defnydd o fagiau siopa plastig.

Datblygiadau yn Lloegr

Ar 11 Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei [Chynllun Amgylchedd 25-mlynedd ar gyfer Lloegr](#), a oedd yn amlinellu deg nod ar gyfer gwella'r amgylchedd gan ddefnyddio dull 'cyfalaf naturiol', gan gynnwys:

Work towards eliminating all avoidable waste by 2050 and all avoidable plastic waste by end of 2042.

Mae [blog](#) diweddar gan y Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi trosolwg o'r cynllun, ac mae'n trafod sut y gallai effeithio ar Gymru.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn [datganiad ysgrifenedig](#) ar 27 Medi 2017, dywedodd Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, "fel Llywodraeth, rydym yn derbyn bod angen gwneud mwy i wella ein cyfradd ailgylchu ymhellach ac i fynd i'r afael â sbwriel a'r materion sy'n gysylltiedig â chymdeithas a diwylliant 'taflu'. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, awgrymodd mai'r nod fyddai "atal sbwriel rhag mynd i mewn i'r amgylchedd yn y lle cyntaf", ac i "werthfawrogi'r adnoddau hynny rydym ni'n eu cymryd yn ganiataol". Cyflwynodd yr astudiaeth ar [Gyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd](#) (EPR) gan Eunomia, i asesu opsiynau posibl, gan ddweud:

... rwyf wedi comisiynu astudiaeth i asesu ymyriadau posibl i gynyddu gweithgarwch atal gwastraff, codi cyfraddau ailgylchu a lleihau sbwriel ar y tir a sbwriel morol. Bydd cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr, megis y cynlluniau sydd ar waith yn y DU ar hyn o bryd, yn cael eu cynnwys yn yr ymchwil. Bydd Cynlluniau Dychwelyd Blaendal yn cael eu cynnwys hefyd. Bydd yr ymchwil hefyd yn asesu effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol posibl cynlluniau ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr (EPR), gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl.

Cyhoeddodd Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol mewn [datganiad yn y Cyfarfod Llawn](#) ar 13 Chwefror 2018 na fyddai'r dreth ar ddeunydd plastig untro yn cael ei chyflwyno gan fod 'treth tir gwag' wedi cael ei dewis yn lle hynny. Dywedodd:

Bydd Llywodraeth y DU yn dechrau casglu tystiolaeth ar sut y bydd yn ymdrin â phroblem plastig untro, gan gynnwys drwy ddefnyddio treth. Beth bynnag fo'i rinweddau, mae'r cyhoeddiad hwnnw, rwy'n credu, yn creu rhwystr ar lwybr unrhyw gynnig ar gyfer Cymru yn unig.

Mewn datganiad gan Lywodraeth Cymru, a gyflwynwyd yn y Cyfarfod Llawn ar [27 Chwefror 2018](#), trafododd Hannah Blythyn AC, Gweinidog yr Amgylchedd, gamau gweithredu Llywodraeth Cymru o ran plastigion untro:

Rydym ni wedi sicrhau y bu Cymru'n rhan o alwad Llywodraeth y DU am dystiolaeth ynglŷn â sut y bydd yn ymdrin â mater plastig untro, gan gynnwys drwy ddefnyddio treth.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i weithio ar dreth plastig tafladwy annibynnol posibl ar gyfer Cymru.

Yn y Cyfarfod Llawn ar [8 Mai 2018](#) cyhoeddodd ganlyniadau'r astudiaeth Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd. Dywedodd:

Rwyf i'n ystyried diwygiadau i Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr fel bod cynhyrchwyr a manwerthwyr yn talu cyfran fwy o gostau rheoli gwastraff.

... Rydym yn parhau i weithio gyda Thrysorlys EM ar dreth plastig untro i'r DU.

...Gallaf gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi llofnodi cytundeb Plastigau y DU WRAP.

Hefyd nododd y ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i "weithredu ar ein geiriau":

Rwyf i wedi ymrwmo i sicrhau nad oes plastig untro i'w weld yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn ...

Nid ydym yn defnyddio gwellt, trowyr na chyllyll a ffyrc plastig yn ein ffreuturau. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddylanwadu ar y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, er enghraifft drwy ddarparu contractau caffael deunyddiau tafladwy yn holl adeiladau Llywodraeth Cymru, drwy weithio gyda Gwerth Cymru.

Yn y Cyfarfod Llawn ar [13 Mehefin 2018](#), mewn ymateb i gwestiwn gan David Melding AC, llefarydd y Blaid Geidwadol, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i:

ddatblygu ystod o fesurau sy'n caniatáu i ni nodi tueddiadau a chamau gweithredu i helpu i leihau'r defnydd o blastigion, gan gynnwys pethau fel gwellt o fewn y sector cyhoeddus, ac yn enwedig mewn ysgolion.

Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ar 5 Ebrill 2017, arweiniodd Simon Thomas AC [ddadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod ar Fil Lleihau Gwastraff ar gyfer Cymru](#). Roedd y cynnig yn canolbwyntio ar gynlluniau dychwelyd blaendal, ar waharddiad neu ardoll ar ddeunydd pecynnu polystyren (na ellir ei ailgylchu) ac ar osod gofynion newydd ar gynhyrchwyr bwyd a manwerthwyr i leihau deunydd pecynnu diangen.

Cafodd y cynnig gefnogaeth drawsbleidiol, a phasiwyd ef, gyda 34 o bobl o blaid, dim yn erbyn a 12 yn ymatal.

Trafododd y Pwyllgor Deisebau [ddeiseb flaenorol](#) ar gyfer gwahardd deunydd pacio polystyren. Yn dilyn ymateb Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, cytunodd y Pwyllgor nad oedd llawer mwy y gallai ei wneud i fynd ymlaen â'r mater, a chytunwyd i gau'r ddeiseb.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Deisebau yn ystyried y deisebau cysylltiedig a ganlyn:

[P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy.](#)

[P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigion untro...mae'n bryd cyflwyno treth!](#)

[P-05-822: Gwahardd gwellt plastig \(wrth yfed llaeth\) yn ein hysgolion](#)

Yn y Cyfarfod Llawn ar [23 Ionawr 2018](#), mewn ymateb i ddatganiad gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y diwydiant bwyd a diod, tynnodd Joyce Watson AC sylw at yr ymgyrch 'Cael gwared ar y gwelltyn' (Ditch the Straw) (Saesneg yn unig). Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

Mae'r fenter gwellt plastig mor syml, ond mae'n bwysig ...Felly, gallai pethau bach fel newid o blastig i bapur-oherwydd rydym ni'n gwybod fod pobl yn awyddus i ddefnyddio gwellt - gallai arbed cymaint.

Yn y Cyfarfod Llawn ar [12 Mehefin 2018](#), gofynnodd Joyce Watson AC "a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried edrych ar atal, neu yn wir, leihau cyflenwad y mathau hynny o wellt drwy ei pholisi caffael cyhoeddus".

Mewn ymateb, atebodd Julie James AC, Arweinydd y Tŷ:

Mae gennym ni Gwerth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a WRAP i ddatblygu a chyflawni sawl cynllun arbrofol ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid ledled Cymru i ddangos dulliau newydd ym maes caffael sy'n llwyr ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae un o'r cynlluniau arbrofol hynny yn ymwneud â gwellt plastig. Mae swyddogion yn edrych i weld beth y gallwn ei wneud i ddatblygu amrywiaeth o ddulliau o nodi tueddiadau a gweithredu camau i leihau neu ddileu'r defnydd o blastigau, gan gynnwys deunydd pacio bwyd a gwellt, yn ein contractau yn y dyfodol.

Ar 30 Mehefin 2018, daeth y [Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd \(Microbelenni\) \(Cymru\) 2018](#) i rym yng Nghymru, yn gwahardd cynhyrchu a gwerthu cynhyrchion sy'n cynnwys microbelenni plastig. Mewn ymateb i osod y rheoliadau gerbron y [Cyfarfod Llawn](#) ar 6 Mehefin 2018, dywedodd David Melding AC:

Rwy'n credu bod hwn yn gam sylweddol i'w groesawu, ond dim ond y cam cyntaf ydyw. Mae angen newid mewn polisi cyhoeddus ynghylch defnydd cyfrifol o gynhyrchion plastig a gwahardd cynhyrchion plastig untro.

Mae'r [Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig](#) yn cynnal [ymchwiliad](#) ar hyn o bryd i lygredd microblastigau yn afonydd Cymru.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-829
Ein cyf/Our ref HB/00756/18

David John Rowlands AM

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

24 August 2018

Dear David,

Thank you for your letter of 25 July regarding Petition P-05-829, which calls for a ban on all single use plastic items in Wales. The Welsh Government recognises the growing concern around single use plastic and welcomes the steps being taken by citizens, businesses and the public sector to address it. We recognise that to be successful, change must happen at the community level.

The Welsh Government is working to reduce the unnecessary use of plastic where alternatives exist. For example, the National Procurement Service (NPS) is collaborating with Waste and Resource Action Programme (WRAP) and the Future Generations Commissioner's office to develop a range of measures to allow us to identify trends and implement actions to help reduce the use of plastics (including straws) in the future. Pilot projects are currently underway with several councils to look at the issue of plastic waste reduction in relation to procurement. The Welsh Government and NPS are happy to work with councils and companies on ways to avoid it.

Plastic is ubiquitous in modern life and has many useful applications, for example in medical environments where it can provide safe and sterile, single-use equipment which guards against contamination. Much of what we use in our homes every day is made of, or packaged in, single use plastic and sometimes there are good reasons for this. Fresh food, for example, can have a much longer shelf life if it is wrapped in plastic. Food waste, which has a significantly higher carbon footprint than its packaging, is therefore reduced.

Whilst it is clear that we need to reduce unnecessary plastic consumption, the key to addressing this challenge is the development of new business models to retain plastic in economic use for as long as possible and avoid its escape into the environment. We need to make sure that we have the infrastructure needed to keep plastic recycle in Wales so that more Welsh manufacturers will use recycled materials. We also want to encourage designers to create products and packaging with waste minimisation and circularity in mind. The publication of WRAP Cymru's ['Towards a Route Map for Plastic Recycling'](#) demonstrates the scale of our ambition, and our commitment to making it a reality. To support this aim, I am focusing new capital funding in 2019/20 on businesses working towards a more circular plastics economy in Wales through our £6.5 million Circular Economy Investment Fund.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


In Wales, we have long been taking steps to reduce plastics in our environment and improve the way we deal with plastic waste. In 2011, we were the first in the UK to introduce a charge for single use carrier bags, and we have continued to lead the way with ground-breaking legislation in the form of the Environment (Wales) Act 2016 and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

We have identified plastic as a priority waste for action. Wales' recycling rate is already the best in the UK, second in Europe and third in the World and we are always looking at how we can do more. Our long-term goal is zero waste (100% recycling) by 2050, with an interim target of 70% by 2025. We have set out a wide range of actions to achieve this and I am keen to keep Wales at the forefront of efforts to reduce and recycle all types of waste. It is also my ambition for Wales to become the first 'Refill Nation' in the World. Within a year, we will deliver a drinking water refill scheme into every community along the Wales Coastal Path. We want to make it easy for people to get fresh drinking water in more places, whilst reducing plastic.

I am also considering the possibility of a UK-wide Deposit Return Scheme for drinks containers and I met my counterparts from the UK and Scottish Governments to discuss this issue in July. I am keen to ensure that any scheme delivers optimum benefits for Wales and that we take account of risks and benefits to existing provision and recycling levels here, including the possible effect on Local Authorities' statutory recycling targets. We are also seeking to work closely with the UK Government in relation to any action to ban specific single use plastic items.

In addition, the Cabinet Secretary for Finance is currently considering a potential disposable plastics tax. I am pleased that HM Treasury is also looking at this issue and we are working with them to help devise the best way forward over the coming months. We are also considering the possibility of a Welsh tax, levy, or charge on single-use drinks containers. Above all, the Cabinet Secretary for Finance has been clear that any potential tax in this area needs to be fair and proportionate, in line with the principles set out in the tax policy framework.

Yours Sincerely,



Hannah Blythyn AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd
Minister for Environment

P-05-830 Ailagor Canolfan Feddygol Dewi Sant, Pentwyn, yn Amser Llawn

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Joe Carter, ar ôl casglu 380 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ailagor Canolfan Feddygol Dewi Sant, Pentwyn, yn amser llawn a buddsoddi yn y ganolfan hon a ddefnyddir yn helaeth. Rydym yn galw ar y bwrdd iechyd i gynnal asesiad o anghenion cleifion yn Nwyrain Caerdydd yn sgîl y datblygiadau tai diweddar.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 25 Medi 2018

Petitions Committee | 25 September 2018

Rhif y ddeiseb: P-05-830

Teitl y ddeiseb: Ailagor Canolfan Feddygol Dewi Sant, Pentwyn yn amser llawn

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ailagor Canolfan Feddygol Dewi Sant, Pentwyn, yn amser llawn a buddsoddi yn y ganolfan hon a ddefnyddir yn helaeth. Rydym yn galw ar y bwrdd iechyd i gynnal asesiad o anghenion cleifion yn Nwyrain Caerdydd yn sgil y datblygiadau tai diweddar.

Y cefndir

Agor am lai o oriau

Is-feddygfa Canolfan Feddygol Pontprennau yw Canolfan Feddygol Dewi Sant ym Mhentwyn, Caerdydd ac, yn ôl [erthygl newyddion](#) ar Wales Online ar 23 Mai 2018, bydd Canolfan Feddygol Dewi Sant, sydd â 10,000 o gleifion cofrestredig, yn agor yn y bore'n unig yn y dyfodol oherwydd problemau staffio sylweddol.

Mae'r erthygl yn tynnu sylw at y ffaith bod hyn yn cael ei gyhoeddi wrth i Gyngor Caerdydd gyhoeddi ei fwriad i sicrhau cynnydd o 13,000 ym mhoblogaeth gogledd Caerdydd dros y blynyddoedd nesaf, fel rhan o'i [Gynllun Datblygu Lleol](#). Yn yr erthygl, dywedodd y Cynghorydd Joseph Carter, sy'n aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol, y byddai'r penderfyniad i leihau'r oriau yn cael effaith niweidiol ar y rhai sy'n byw yn ei etholaeth ym Mhentwyn. Mewn llythyr at y Cynghorydd Carter, dywedodd pennaeth gwasanaethau contractwyr gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd fod cynlluniau ar waith i ddatblygu Canolfan Feddygol Pontprennau, sy'n ganolfan fwy modern, i ddarparu ar gyfer 8,000 o gleifion ychwanegol.

Ar ôl cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, deallir bod y Bwrdd Iechyd wedi neilltuo arian i ehangu safle Pontprennau i ddarparu ar gyfer y rhai a fydd yn symud i fyw yn y tai newydd sy'n cael eu codi.

Cau'r is-feddygfa

Ar ôl lleihau oriau agor yr is-feddygfa, gwelwyd y cyhoeddiad a ganlyn ar [wefan Canolfan Feddygol Pontprennau](#)¹:

Branch Surgery Update

We currently provide services for all our patients at 2 sites, the main surgery at Pontprennau Medical Centre and the branch surgery at St David's Medical Centre.

The Practice have a number of concerns over the continued running of the branch surgery, including but not limited to the condition of the building, leasing arrangements and accessibility issues.

Due to these concerns, we have made the difficult decision to apply to close the branch surgery at St David Medical Centre.

We would like to assure you that a full range of services will continue to be available, to ALL our patients, from the main surgery at Pontprennau Medical Centre and hope that you all continue to access services from us. There will also be no reduction in the number of appointments available.

We have engaged with the Cardiff and Vale University Health Board and Cardiff and Vale of Glamorgan Community Health Council, and they wish to hear YOUR VIEWS on this proposal.

If you would like to comment on this application, please contact your CHC using the details below. Comments are required before Friday 24th August 2018.

Yn ogystal â'r wybodaeth uchod, nododd gwefan Canolfan Feddygol Pontprennau y cynhelir cyfarfod i gleifion ar 18 Medi 2018 ac y bydd y tîm yn bresennol i drafod y sail resymegol dros gau Canolfan Feddygol Dewi Sant. Gwahoddir pob claf i ddod i'r cyfarfod a byddent yn cael cyfle i ofyn cwestiynau. Bydd y cyfarfod yn cael ei hwyluso gan gynrychiolwyr Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro.

Gohebiaeth yn ymwneud â'r ddeiseb

Mae gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, dyddiedig 21 Awst 2018, yn tynnu sylw at y ffaith na all ef na'i swyddogion ymyrryd mewn perthynas â chau Canolfan Feddygol Dewi Sant gan mai mater cytundebol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chanolfan Feddygol Pontprennau ydyw.

Dywed Ysgrifennydd y Cabinet fod y brif feddygfa wedi gwneud cais ffurfiol i'r Bwrdd Iechyd i gau'r is-feddygfa, a chredir mai'r rheswm dros y penderfyniad yw cyflwr gwael adeilad Canolfan Dewi Sant a'r ffaith bod y les presennol gyda'r landlord yn dod i ben. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfeirio at y broses ffurfiol sydd ar waith i ystyried y cais i gau'r ganolfan ac y bydd cleifion yn cael cyfle i fynegi barn ar y cynllun arfaethedig mewn cyfarfod cyhoeddus sy'n cael ei drefnu gan y Cyngor Iechyd Cymunedol.

¹ Ni nodir dyddiadau ar gyfer diweddariadau ar y wefan.

Mae'r ohebiaeth yn nodi bod cyllid grant sylweddol wedi'i sicrhau i ddatblygu safle prif feddygfa Pontprennau er mwyn darparu gofal ar gyfer cleifion ychwanegol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ysgrifennu at Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gofyn iddi sicrhau bod y materion a nodir yn cael sylw a'i bod yn ymateb yn uniongyrchol i'r deisebydd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref VG/02614/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@llyw.cymru

21 Awst 2018

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf ynghylch deiseb sy'n dymuno gweld Canolfan Feddygol Dewi Sant ym Mhentwyn yn ailagor.

Rwy'n sylweddoli bod pryderon gan y cleifion am ddarpariaeth gwasanaethau yn yr ardal hon o Gaerdydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio y byddwch yn deall nad wyf i, na fy swyddogion, yn gallu ymyrryd yn y mater hwn. Mae'n rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a phractis meddygol Pontprennau ymdrin â'r materion contractiol hyn. Rwy'n deall bod practis meddygol Pontprennau yn y gorffennol wedi darparu gwasanaethau o'r brif feddygfa ym Mhontprennau a meddygfa gangen Dewi Sant. Mae'r practis wedi cyflwyno cais ffurfiol i'r bwrdd iechyd i gau'r feddygfa gangen. Rwy'n credu mai'r rheswm dros hynny yw oherwydd bod adeilad Dewi Sant mewn cyflwr gwael ac oherwydd bod y les bresennol wedi dod i ben. Mae proses ffurfiol yn bodoli ar gyfer ystyried cais i gau cangen a bydd cleifion yn cael cyfle i fynegi barn ar y cynllun arfaethedig mewn cyfarfod cyhoeddus a fydd yn cael ei drefnu gan y Cyngor Iechyd Cymuned.

Rwy'n deall bod swm sylweddol o gyllid grant gwella wedi ei sicrhau ar gyfer datblygu safle prif feddygfa Pontprennau er mwyn sicrhau bod mwy o gleifion yn gallu cael gofal yno.

Er fy mod yn siŵr bod y gwleidyddion lleol i gyd wedi cael yr holl wybodaeth gan y bwrdd iechyd, yn sgil eich pryderon rwyf wedi ysgrifennu at Maria Battle, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, i ofyn iddi sicrhau bod sylw yn cael ei roi i'r materion a godwyd gennych ac i gysylltu'n uniongyrchol â chi. Byddwn yn disgwyl iddi roi ymateb boddhaol ichi sy'n ymdrin yn llawn â'r pryderon a godwyd gennych.

Gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

**MEMBERS ROOM
YSTAFELL YR AELODAU**

Our Ref: VG/02614/18

01 September 2018

**David John Rowlands AM
Chair – Petitions Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA**



Dear Mr Rowlands,

St David's Medical Centre petition, Cardiff

Thank you for your email and for considering our petition. The decision to close a well-used medical centre in my community of Pentwyn was a huge shock and we felt the issue should be brought to the attention of Assembly Members through our petition.

We first became aware of a proposal to reduce the opening hours of St David's Medical Centre in April 2018. There was no public consultation and this led to us setting up this petition and first approaching the health board.

Background to the petition

Approximately 10,000 people live in Pentwyn in North East Cardiff, with most of these people being registered at St David's. A medical centre has existed in this community since the 1980s and the current building was opened in the mid-1990s owned by the partners. Starting in the 1990s, the new community of Pontprennau started to emerge and the partners established a branch surgery for that new expanding community.

Over the years, the area continued to expand, patterns of working changed, and some of the original partners retired. At some point the former branch surgery in Pontprennau became the main surgery and St David's Medical Centre was reclassified as the branch surgery. By 2014 the present partners owned the former branch surgery in Pontprennau, whilst the retired partners owned the St David's Medical Centre.

Over the last 5 months the proposals concerning St David's medical centre have changed twice and we have been told different rationales.

Contact Details/ Manylion Cyswilt: 45 Ael-Y-Bryn, Llanedeyrn, CARDIFF, CF23 9LG

Email me at/ **E-bostio:** jcarter@cardiff.gov.uk

Phone / Ffôn: **07976 440380**

Twitter: @joseph_carterUK

Facebook: /PentwynandLlanedeyrn

Originally patients were told that the hours at St David's Medical Centre were being reduced due to staffing issues. This prompted our original letter to Cardiff and Vale University Health Board to find out what was happening.

In June 2018 we met with officials from the health board and were told that the situation had now changed. The partners had applied for an Improvement Grant to invest in the Pontprennau site and had decided to temporarily reopen St David's full time and move the Pontprennau patients there as well. This was communicated to all patients by letter. Local councillors had not been consulted or approached in anyway by the partners, but the Health Board and CHC had been told.

At the end July, the partners revealed their intentions to close St David's medical centre. They handed out leaflets to patients when they attended clinic, put a poster outside the practice, but did not write out to all patients. As local councillors we felt we had a duty to let our community know. We encouraged people to sign the petition and raise their objections with the Community Health Council.

What is the issue?

There are significant pockets of deprivation in Pentwyn the location of St David's medical centre was picked so that it could easily serve these patients. There are high numbers of people with chronic conditions such as asthma, COPD and diabetes, and they need access to a GP. Many of our residents can't drive, so whilst they could theoretically access the Pontprennau surgery, we know in reality many will simply call 999 and rely on higher cost hospital services.

Even before the changes in April, patients regularly complained to us that it was difficult to see a nurse or a GP. Both surgeries were designed to serve approximately 5,000 patients each and yet Pontprennau is now set to support 14,000 people as that community expands further. Their concern and ours, is that it will be even more difficult to see a health care professional.

Finally it feels like the wishes of our community are being ignored and these proposals are being rushed through. Patients were not asked their opinion on options before the partners embarked on these plans, and the information they have received has only come late in the day.

Contact Details/ Manylion Cyswilt: 45 Ael-Y-Bryn, Llanedeyrn, CARDIFF, CF23 9LG

Email me at/ **E-bostio:** jcarter@cardiff.gov.uk

Phone / Ffôn: **07976 440380**

Twitter: @joseph_carterUK

Facebook: /PentwynandLlanedeyrn

Response from the Cabinet Secretary

We are grateful to the Cabinet Secretary investigating the issue and responding to the committee. We know that primary care officials in the health board are aware of our concerns, but we are pleased that he has raised the issue with the chair of the health board. We look forward to his response.

We would like to respond to some of the comments.


In the second paragraph he states that this is a contractual matter between the health board and the partners. I think this oversimplifies the situation as the community health council and Welsh Government have a role to play. If the single practice at Pontprennau is unable to serve the whole population, then the proposal to close St David's medical centre should be rejected, and I understand that at this point, Welsh Government would be involved.

In the third paragraph, Mr Gething talks about the Pontprennau surgery serving Pentwyn for a number of years. Whilst this is not inaccurate, it fails to take into account the fact that St David's Medical Centre was the larger main surgery until the partners recently changed the status.

In the fourth paragraph, Mr Gething raises the issue of the grant funding from the health board. As mentioned earlier this was only revealed to councillors in June at a time when the plan to close St David's Medical Centre hadn't been announced. We believe that the future plans to close the surgery should have been revealed by the partners when they applied to the health board for the improvement grant.

We hope that our letter provides some background and context around the St David's medical centre petition. If you or any member of your committee, would like any further information, please feel free to contact us.

Yours sincerely,



**COUNCILLORS JOE CARTER, DAN NAUGHTON & EMMA SANDREY
WELSH LIBERAL DEMOCRAT COUNCILLORS FOR PENTWYN AND
LLANEDEYRN**

Contact Details/ Manylion Cyswilt: 45 Ael-Y-Bryn, Llanedeyrn, CARDIFF, CF23 9LG

Email me at/ E-bostio: jcarter@cardiff.gov.uk

Phone / Ffôn: **07976 440380**

Twitter: @joseph_carterUK

Facebook: /PentwynandLlanedeyrn

Eitem 2.4

P-05-831 Rhowch ddiwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth ariannol a roddir i ddiodefwr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Contaminated Whole Blood UK Group, ar ôl casglu 159 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Mae'r ddeiseb hon yn galw ar Gynulliad Cymru i roi diwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth ariannol a roddir i ddiodefwr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru, drwy newid y cynllun i o leiaf adlewyrchu'r darpariaethau ar gyfer y rheini a gaiff eu heintio yn Lloegr.

Mae sawl categori o ddiodefwr yng Nghymru sydd o bosibl ar eu colled o £20,000 neu fwy o dan y cynllun. Cafodd miloedd o bobl eu heintio o ganlyniad i dderbyn gwaed wedi'i heintio neu gynhyrchion gwaed wedi'u heintio a roddwyd iddynt gan y GIG tan fis Medi 1991 o leiaf. Mae dros ddwy fil o bobl eisoes wedi marw.

Yn dilyn datganoli pwerau, y Cynulliad sydd â'r cyfrifoldeb dros gefnogi diodefwr a'u teuluoedd y rhai sydd wedi'u heintio yng Nghymru. Caiff y cynlluniau cefnogaeth eu gweithredu gan wasanaeth Cefnogi Gwaed wedi'i Heintio yng Nghymru (WIBSS) a weinyddir gan Ymddiriedolaeth GIG Velindre a Chyd-bartneriaeth Gwasanaethau'r GIG (NWSSP) sydd, yn y pen draw, yn atebol i Gynulliad Cymru.

I'r rheini a gaiff eu heintio yn Lloegr, cynhelir y cynllun cyfatebol gan EIBSS, sydd yn y pen draw yn atebol i'r senedd yn Llundain. Er i'r diodefwr oll gael eu heintio gan y GIG cyn iddo gael ei ddatganoli, mae gan EIBSS ac WIBSS ddarpariaethau tra gwahanol o ran cymorth ariannol. Y ffactor sy'n pennu pa gynllun y byddwch chi'n ei gael yw lle cafodd y diodefwr ei heintio yn hytrach na lle mae'n byw. Mae dau gynllun na all y rheini sydd o dan WIBSS gael mynediad atynt. Gelwir y rhain yn 'Fecanwaith Categori Arbennig' a 'cynllun cyllid ychwanegol dewisol'. Effaith net hyn oll yw bod sawl categori o ddiodefwr heintiau yng Nghymru o bosibl ar eu colled o £20,000 o dan y cynllun, neu'n fwy os oes ganddynt blant, waeth ble y maent yn byw. Bydd dau berson sy'n byw yng Nghaerdydd er enghraifft, sydd wedi'u heintio gan y GIG, â'r un effaith, o bosibl yn cael gwahaniaeth o £20,000 mewn cymorth

ariannol dim ond gan fod un o'r ddau 'yn fwy lwcus' o gael ei heintio yn Lloegr.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cymru i ymyrryd i roi diwedd ar yr anghyfiawnder hwn nawr

Gwybodaeth Ychwanegol

Pwy ydym ni: rydym yn grŵp cefnogi cyfoedion annibynnol sy'n cynnwys dioddefwyr sgandal gwaed wedi'i heintio ledled y DU

<https://www.facebook.com/groups/ContaminatedWholeBloodUK/>

Lle gellir canfod manylion cynlluniau cyfatebol ar gyfer y rheini a gaiff eu heintio yn Lloegr a'r rheini a gaiff eu heintio yng Nghymru: I bobl sydd wedi'u heintio yng Nghymru, <https://wibss.wales.nhs.uk/> I bobl sydd wedi'u heintio yn Lloegr, dyma'r cynllun cyfatebol

<https://www.nhsbsa.nhs.uk/england-infected-blood-support-scheme>

Beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn:

Ar sawl achlysur, mae gwahanol sefydliadau wedi ceisio codi'r mater yn yr ymchwiliad sy'n cael ei arwain gan Syr Brian Langstaff a thrwy wneud y wasg yn ymwybodol o'r erthygl hon sy'n canolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng cynlluniau Cymru a'r Alban <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-43898899>

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru

P-05-831 Rhowch ddiwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth ariannol a roddir i ddiodefwrwr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 25 Medi 2018
Petitions Committee | 25 September 2018

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: [P-05-831](#)

Teitl y ddeiseb: Rhowch ddiwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth ariannol a roddir i ddiodefwrwr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb:

Mae'r ddeiseb hon yn galw ar Gynulliad Cymru i roi diwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth ariannol a roddir i ddiodefwrwr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru, drwy newid y cynllun i o leiaf adlewyrchu'r darpariaethau ar gyfer y rheini a gaiff eu heintio yn Lloegr.

Mae sawl categori o ddiodefwrwr yng Nghymru sydd o bosibl ar eu colled o £20,000 neu fwy o dan y cynllun. Cafodd miloedd o bobl eu heintio o ganlyniad i dderbyn gwaed wedi'i heintio neu gynhyrchion gwaed wedi'u heintio a roddwyd iddynt gan y GIG tan fis Medi 1991 o leiaf. Mae dros ddwy fil o bobl eisoes wedi marw.

Yn dilyn datganoli pwerau, y Cynulliad sydd â'r cyfrifoldeb dros gefnogi diodefwrwr heintiedig yng Nghymru a'u teuluoedd. Caiff y cynlluniau cymorth eu gweithredu gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) a weinyddir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) sydd, yn y pen draw, yn atebol i Gynulliad Cymru.

I'r rheini a gaiff eu heintio yn Lloegr, cynhelir y cynllun cyfatebol gan EIBSS sydd, yn y pen draw, yn atebol i'r senedd yn Llundain. Er i'r diodefwrwr oll gael eu heintio gan y GIG cyn iddo gael ei ddatganoli, mae gan EIBSS a WIBSS ddarpariaethau tra gwahanol o ran cymorth

ariannol. Y ffactor sy'n pennu pa gynllun y byddwch chi'n ei gael yw lle cafodd y dioddefwr ei heintio yn hytrach na lle mae'n byw. Mae dau gynllun na all y rheini sydd o dan WIBSS gael mynediad atynt. Y rhain yw 'Mecanwaith Categori Arbennig' a hefyd y 'Cynllun cyllid ychwanegol dewisol'. Effaith net hyn oll yw bod sawl categori o ddiodefwyr heintiau yng Nghymru o bosibl ar eu colled o £20,000 o dan y cynllun, neu'n fwy os oes ganddynt blant, waeth ble y maent yn byw. Bydd dau berson sy'n byw yng Nghaerdydd er enghraifft, sydd wedi'u heintio gan y GIG, â'r un effaith, o bosibl yn cael gwahaniaeth o £20,000 mewn cymorth ariannol dim ond gan fod un o'r ddau 'yn fwy lwcus' o gael ei heintio yn Lloegr.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cymru i ymyrryd i roi diwedd ar yr anghyfiawnder hwn nawr.

Y cefndir

Yn ystod y 1970au a dechrau'r 1980au, daliodd miloedd o gleifion y DU hepatitis C, HIV, neu'r ddau, o waed neu gynhyrchion gwaed halogedig. Y rhan fwyaf o'r rhai yr effeithiwyd arnynt oedd diodefwyr hemoffilia, y mae eu triniaeth yn dibynnu ar arllwysiadau mewnwythiennol mynych o ffactorau clotio gwaed a dynnwyd o blasma rhoddwyr. Ar y pryd, roedd sypiau o grynodiad ffactor clotio'n cael eu gweithgynhyrchu o roddion cyfun o waed, gan gymysgu cynhyrchion gwaed gan filoedd o roddwyr o bosibl. Creodd hyn alw mawr ar gyflenwadau gwaed a hefyd cynyddodd yn sylweddol y risg o halogi. Oherwydd prinder lleol crynodiad clotio, roedd y DU yn mewnfurio cyflenwadau o roddion gwaed y talwyd amdanynt yn yr Unol Daleithiau. Mewn rhai achosion, gallai'r rhain fod wedi dod o grwpiau â risg uchel o gario hepatitis C/HIV.

Mewn [dadl yn y Cyfarfod Llawn](#) ym mis Ionawr 2017, tynnwyd sylw bod 273 o gleifion yng Nghymru wedi cael HIV neu hepatitis C drwy waed/cynhyrchion gwaed halogedig, ac mae 70 o'r bobl hyn wedi marw o ganlyniad i hynny.

Cymorth Ariannol

Wrth ymateb i'r ddadl honno, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd, Llesiant a Chwaraeon y gwaith sydd ar droed i ddiwygio'r system o gymorth ariannol a roddir gan Lywodraeth Cymru i'r rhai y mae hepatitis C a HIV drwy driniaeth â gwaed halogedig yn effeithio arnynt. Dywedodd:

Byddai wedi bod yn well gennym fod wedi gwneud hyn ar sail gyson ledled y DU, ond dyma ble rydym. Mae'r pum cynllun haint penodol a sefydlwyd ers 1988 wedi esblygu mewn modd ad hoc, a thros amser mae'r system wedi dod yn gymhleth.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y [trefniadau cymorth newydd](#) i unigolion yr effeithir arnynt a'u teuluoedd, sef creu 'un cynllun symlach ar gyfer Cymru i'w weinyddu gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre drwy Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru'.

Yn ei ymateb i'r Pwyllgor Deisebau (Awst 2018), dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

Er ei bod yn dal yn ystyriaeth bwysig nad yw buddiolwyr yng Nghymru yn sylweddol ar eu colled yn ariannol yn fwy nag unman arall yn y DU, mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS), er hynny, yn cynnig pecyn mwy cytbwys o gymorth cyffredinol i'w fuddiolwyr o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael trwy rai o gynlluniau eraill y DU.

Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried nifer o ddewisiadau ar gyfer buddion cyffredinol y cynllun yn 2018-19 sy'n deg, yn dryloyw ac sy'n cynnig y pecyn cymorth gorau yn gyffredinol o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Un o'r dewisiadau hyn o bosibl fyddai mabwysiadu dull gweithredu tebyg [i'r hyn sydd] yn Lloegr mewn perthynas â'r Mekanwaith Categori Arbennig ond tra bo'r gwaith hwn yn mynd rhagddo nid oes modd cynnig ateb clir ichi yn hyn o beth eto.

Ymchwiliad y DU i Waed Halogedig

Datblygiad allweddol i fod yn ymwybodol ohono yw'r ymchwiliad cyhoeddus annibynnol [i'r defnydd o waed halogedig](#), dan gadeiryddiaeth Syr Brian Langstaff, sydd bellach ar droed. Cynhelir gwrandawriadau rhagarweiniol tua diwedd mis Medi.

Mae [cylch gorchwyl](#) yr ymchwiliad yn cynnwys ystyried natur a digonolrwydd y driniaeth, y gofal a'r cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol) a roddir i bobl a gafodd eu heintio ac yr effeithir arnynt, gan gynnwys **graddau unrhyw wahaniaeth yn y trefniadau a wneir ar gyfer cymorth ariannol rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.**

Mae [Hemoffilia Cymru](#), sy'n ymgyrchu dros hemoffiligion a heintiwyd â chynhyrchion gwaed halogedig, yn gyfranogwr craidd yn yr ymchwiliad.



Your ref/Eich cyf P-05-831
Ein cyf/Our ref VG/02615/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

16 Awst 2018

Annwyl David,

Diolch i chi am eich llythyr 25 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-05-831 ynghylch cymorth ariannol i bobl yng Nghymru sydd wedi'u heintio gan waed halogedig.

Mae pob un o bedair gwlad y DU wedi mabwysiadu gwahanol drefniadau ar gyfer darparu buddion i'w buddiolwyr o dan y cynllun gwaed heintiedig. Yn anffodus, bu'n anodd o ganlyniad sefydlu dull gweithredu cyson a theg yn y DU a model ar gyfer taliadau.

Rydym yn ymwybodol bod mabwysiadu'r Mecanwaith Categori Arbennig (SCM) fel rhan o'r cynllun yn Lloegr wedi arwain at ganfyddiad ymhlith rhai buddiolwyr ar draws gweddill y DU fod y trefniadau yn Lloegr yn fwy hyblyg a ffafriol. Mae hyn wedi dwysáu'r teimlad o annhegwch ac anghysondeb ynghylch rhai agweddau ar y cynllun.

Er ei bod yn dal yn ystyriaeth bwysig nad yw buddiolwyr yng Nghymru yn sylweddol ar eu colled yn ariannol yn fwy nag unman arall yn y DU, mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS), er hynny, yn cynnig pecyn mwy cytbwys o gymorth cyffredinol i'w fuddiolwyr o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael trwy rai o gynlluniau eraill y DU.

Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried nifer o ddewisiadau ar gyfer buddion cyffredinol y cynllun yn 2018-19 sy'n deg, yn dryloyw ac sy'n cynnig y pecyn cymorth gorau yn gyffredinol o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Un o'r dewisiadau hyn o bosibl fyddai mabwysiadu dull gweithredu tebyg yn Lloegr mewn perthynas â'r Mecanwaith Categori Arbennig ond tra bo'r gwaith hwn yn mynd rhagddo nid oes modd cynnig ateb clir ichi yn hyn o beth eto.

Rwyf yn sylweddoli bod y mater hwn yn destun pryder i lawer o'n buddiolwyr ac rydym wedi ymrwmo i roi gwybod yn brydlon i bob un o fuddiolwyr y Cynllun am unrhyw newidiadau i WIBSS.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio y bydd hyn o gymorth ichi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Dear Committee Members,

Re: P- 05-831 Infected Blood Scheme petition

Thank you for communication from Vaughan Gething for which we are very grateful. We would be grateful also to consider representations made in this document in considering any next steps.

The petition was developed and done for a group called Contaminated Whole Bloods UK (CWB).

Looking at the response from the Cabinet secretary, we want to ensure that the purpose and hoped outcomes are understood clearly. The petition:

- Is asking for those infected in Wales receive the same financial support as those infected in England as a MINIMUM. The ideal is that there is equality for all victims, in terms of financial support, across the United Kingdom
- The petition is not requesting that the Special Category Mechanism is simply adopted for those infected in Wales- but that that the scheme is amended to ameliorate the position for those infected in Wales

To illustrate the differential, here is a REAL position of 2 infected people to compare. Both parties would be happy to come and speak the committee or other group directly:

	A (infected in England)	B (infected in Wales)
Date of infection	1991	1980
Location of infection	England	Wales
Current Hep c status	SVR	Hep C virus still active
Support scheme level	Stage 1	Stage 1
Relevant blood support scheme	EIBSS	WIBSS
Treatment	2012 – virus cleared	Health means that not yet possible
Current living location	NW England	NW England
Current Hep C related Impact	Every day significant fatigue, brain fog, unable to live normal life	Every day significant fatigue, brain fog, unable to live normal life
Ability to work	Still able to work full time (with adjustments)	Unable to work due to health (as defined by DWP**) and determined that in the group that unlikely to be able to work even with help
Income from non-blood support schemes	Wages, working FT	Employment support allowance
Income from blood support schemes:		
1) Regular payments scheme pa	£18500	£4500
2) Discretionary schemes top up	£4000	£2000***
Total in Blood Support payments	£22500	£6500

*Sustained Virological response – term used to describe when the virus count is negligible because of ‘successful’ treatment

** Department of work and pensions work capability assessment

*** Person B receives this money from the ‘Caxton Fund’. The fund is historical and doesn’t appear to be available to newly discovered infected people <https://wibss.wales.nhs.uk/eligibility/>

Key points:

- As you can see from the comparison table person A is better off from blood support schemes **by £16,500 per year.**
- If Person B was a new registration not an existing beneficiary, there appears to be no scheme that a lay person can find to receive the £2k discretionary scheme payment. The differential in blood support payments would be **£18,500**
- Person A is arguable in better health because:
 - They have cleared the virus
 - They are still able to work full time
 - The virus was in their system for less time
 -
- Person A is in this advantageous position because of the EIBSS scheme offers far more all-round financial support than WIBSS for some groups of beneficiaries – this is particularly accentuated for those classed at stage 1 with ongoing problems
- Based on the data we have received from EIBSS, we believe that approximately 70 people infected in Wales are impacted in a similar unfair way. Based on this example – and taking the difference as an average, the cost of equalisation would be a mere £1.1m (or 0.01% of what I understand to be the Health budget for Wales (£7.2bn))

CWB UK works to support people across all the schemes in the UK. The ideal position is that all infected people across the UK are supported consistently and effectively.

I would be happy, if needed to meet (or correspond further) the committee or other decision-making body to help with potential options and solutions on behalf of CWB UK. It’s important the assembly hears from ALL voices of those infected in Wales not just the more recognised groups as is the suggestion here <http://record.assembly.wales/Plenary/4912?lang=en-GB#A42264>

Richard Wilkinson/Michelle Tolley

Contaminated Whole Bloods UK



P-05-832 Diwygio'r Cod Derbyn i Ysgolion ynghylch Plant a Anwyd yn ystod yr Haf

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Flexible Admissions Wales Group, ar ôl casglu 241 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ystyried diwygio'r Cod Derbyn i Ysgolion lle y mae'n ymwneud â derbyn plant y tu allan i'r grŵp oedran arferol, mewn perthynas â phlant a anwyd yn ystod yr haf (1 Ebrill - 31 Awst).

Oherwydd amseriad cyfnodau dechrau mewn ysgolion, mae plant a anwyd yn ystod yr haf o dan anfantais sylweddol o gymharu â'u cyfoedion. Efallai y byddant yn dioddef effeithiau emosiynol ac addysgol niweidiol wrth iddynt ddechrau eu haddysg ffurfiol lawer yn iau. Gyda hynny mewn golwg, efallai y bydd rhieni yn dewis gohirio pryd y bydd plant a anwyd yn ystod yr haf yn dechrau yn yr ysgol hyd nes iddynt gyrraedd oedran ysgol gorfodol, yn unol â'u hawliau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn canfod bod eu plant wedyn yn cael eu rhoi mewn dosbarth ym Mlwyddyn 1 yn syth, gan gollu'r flwyddyn Derbyn hanfodol, sef y flwyddyn bwysicaf mewn addysg yn ôl gwaith ymchwil.

Mae'n well gan y rhan fwyaf o rieni i'w plant fynd i'r flwyddyn Derbyn pan fyddant yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol yn hytrach na Blwyddyn 1. O dan y Cod Derbyn i Ysgolion, mae hyn yn bosibl mewn theori. Mewn egwyddor, mae'r Cod yn rhoi'r gallu i rieni ofyn i'w plant a anwyd yn ystod yr haf gael eu haddysgu y tu allan i'w grŵp oedran arferol. Yn ymarferol, mae geiriad y Cod wedi achosi llawer o broblemau: mae astudiaethau achos wedi dangos nad yw Awdurdodau Addysg Lleol yn gweithredu'r ddarpariaeth yn gyson ac mai prin y caiff ceisiadau eu derbyn.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y diwygiadau a ganlyn:

- (1) Fel yr opsiwn cyntaf, dylid cymeradwyo ceisiadau i ohirio dyddiad dechrau plant sydd â phen-blwyddi yn ystod misoedd yr haf yn awtomatig (fel sy'n digwydd yn yr Alban);
- (2) Fel arall, dylid diwygio geiriad y ddarpariaeth bresennol i gryfhau hawliau rhieni i ddewis pryd y bydd eu plant yn dechrau mewn dosbarth Derbyn, gan

bwysleisio hefyd y dylai Awdurdodau Addysg Lleol ystyried ceisiadau yn llawn a rhoi arweiniad Llywodraethol i'r perwyl hwn;

(3) Yn y naill achos neu'r llall, dylid sicrhau bod plant sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'w grŵp oedran yn aros gyda'u grŵp newydd drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Nod astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan yr Adran Addysg oedd dangos nad yw gohirio pryd y bydd plentyn yn dechrau yn yr ysgol gynradd yn cael fawr ddim effaith ar ei gyrhaeddiad. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn ofalus wrth drafod yr astudiaeth hon. Roedd yr astudiaeth yn gyfyngedig iawn, gan fesur cyrhaeddiad academaidd YN UNIG, a hynny gan eithrio pob plentyn ag anghenion arbennig neu anghenion ychwanegol. Mae'n annhebygol iawn mai cyrhaeddiad academaidd fydd y prif reswm y mae rhieni'n dewis gohirio mynediad eu plentyn at addysg gynradd.

Nid gallu academaidd plentyn yw'r ystyriaeth bennaf wrth benderfynu ynghylch ei barodrwydd ar gyfer yr ysgol, ond ei aeddfedrwydd emosiynol a chymdeithasol. Y sgiliau hyn a fydd yn helpu plentyn i wneud ffrindiau, i ddelio â'i emosiynau, i ddilyn cyfarwyddiadau ac i ganolbwyntio a meithrin iechyd meddwl da. Ni ellir mesur a oes gan blentyn y sgiliau hyn drwy brawf ffoneg.

Ni fydd cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn diwallu anghenion pob plentyn yng Nghymru; ni all wneud hynny. Ni ddylai hynny fod yn rheswm dros wrthod ceisiadau o'r fath. Mae angen polisi derbyn mwy hyblyg er mwyn ystyried anghenion unigol plant a'r hyn sydd o fudd iddynt. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn pwysleisio y bydd addysg plentyn yn cael ei chyfeirio at ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd corfforol y plentyn cymaint â phosibl (Erthygl 29(1)(a)). Drwy roi plant a anwyd yn ystod yr haf o dan anfantais, nid yw'r Cod Derbyn i Ysgolion presennol yn cyflawni hynny.

Mae gwledydd datganoledig eraill yn y DU eisoes wedi achub y blaen ar Gymru yn hyn o beth. Mae Nick Gibb, y Gweinidog Gwladol dros Safonau Ysgolion, wedi ymrwymo i ddiwygio'r Cod Derbyn i Ysgolion i adlewyrchu hawl rhieni i ddewis. Yn yr Alban, caiff ceisiadau gan rieni i blant o oedran

cyfatebol ohirio dechrau yn yr ysgol eu derbyn yn awtomatig, ac ni fydd y plant yn colli unrhyw flynyddoedd o addysg ysgol wrth wneud hynny.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru

Plant a anwyd yn ystod yr haf

Y Pwyllgor Deisebau | 25 Medi 2018
Petitions Committee | 25 September 2018

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-832

Teitl y ddeiseb: Diwygio'r Cod Derbyn i Ysgolion o ran Plant a Anwyd yr Haf

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ystyried diwygio'r Cod Derbyn i Ysgolion lle y mae'n ymwneud â derbyn plant y tu allan i'r grŵp oedran arferol, mewn perthynas â phlant a anwyd yn ystod yr haf (1 Ebrill - 31 Awst).

Oherwydd amseriad cyfnodau dechrau mewn ysgolion, mae plant a anwyd yn ystod yr haf o dan anfantais sylweddol o gymharu â'u cyfoedion. Efallai y byddant yn dioddef effeithiau emosiynol ac addysgol niweidiol wrth iddynt ddechrau eu haddysg ffurfiol lawer yn iau. Gyda hynny mewn golwg, efallai y bydd rhieni yn dewis gohirio pryd y bydd plant a anwyd yn ystod yr haf yn dechrau yn yr ysgol hyd nes iddynt gyrraedd oedran ysgol gorfodol, yn unol â'u hawliau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn canfod bod eu plant wedyn yn cael eu rhoi mewn dosbarth ym Mlwyddyn 1 yn syth, gan gollu'r flwyddyn Derbyn hanfodol, sef y flwyddyn bwysicaf mewn addysg yn ôl gwaith ymchwil.

Mae'n well gan y rhan fwyaf o rieni i'w plant fynd i'r flwyddyn Derbyn pan fyddant yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol yn hytrach na Blwyddyn 1. O dan y Cod Derbyn i Ysgolion, mae hyn yn bosibl mewn theori. Mewn egwyddor, mae'r Cod yn rhoi'r gallu i rieni ofyn i'w plant a anwyd yn ystod yr haf gael eu haddysgu y tu allan i'w grŵp oedran arferol. Yn ymarferol, mae geiriad y Cod wedi achosi llawer o broblemau: mae astudiaethau achos wedi dangos nad yw Awdurdodau Addysg Lleol yn gweithredu'r ddarpariaeth yn gyson ac mai prin y caiff ceisiadau eu derbyn.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y diwygiadau a ganlyn:

- (1) Fel yr opsiwn cyntaf, dylid cymeradwyo ceisiadau i ohirio dyddiad dechrau plant sydd â phen-blwyddi yn ystod misoedd yr haf yn awtomatig (fel sy'n digwydd yn yr Alban);
- (2) Fel arall, dylid diwygio geiriad y ddarpariaeth bresennol i gryfhau hawliau rhieni i ddewis pryd y bydd eu plant yn dechrau mewn dosbarth Derbyn, gan bwysleisio hefyd y dylai

Awdurdodau Addysg Lleol ystyried ceisiadau yn llawn a rhoi arweiniad Llywodraethol i'r perwyl hwn;

(3) Yn y naill achos neu'r llall, dylid sicrhau bod plant sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'w grŵp oedran yn aros gyda'u grŵp newydd drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol.

Y cefndir

Nid oes rhaid i blentyn fynd i'r ysgol tan ddechrau'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn bum mlwydd oed. O dan Adran 8 o [Ddeddf Addysg 1996](#) a [Gorchymyn Addysg \(Dechrau Oedran Ysgol Gorfodol\) 1998](#), mae plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol yn ystod y tymor ar ôl ei ben-blwydd yn bum mlwydd oed. Nodir dyddiadau'r tymhorau fel 31 Awst, 31 Rhagfyr ac 31 Mawrth.

Bydd gan bob awdurdod lleol ei bolisi ei hun a fydd yn rhan o'i drefniadau derbyn ac yn unol â [Chod Derbyn i Ysgolion](#) Llywodraeth Cymru (Mehefin 2013).

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Gohirio dechrau yn yr ysgol gynradd

Mae [Cod Derbyn i Ysgolion](#) Llywodraeth Cymru yn cynnwys canllawiau ymarferol ac yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn, ynghylch ymgymryd â'u dyletswyddau o ran derbyn. Mae'r Cod yn nodi bod 'rhaid i'r holl gyrrff neu unigolion perthnasol "weithredu'n unol" â'r Cod'. O ran gohirio dechrau mewn ysgolion cynradd, mae'r Cod yn nodi'r canlynol:

Gohirio mynediad i ysgolion cynradd

2.61 Yn ôl y gyfraith, nid yw'n ofynnol i blentyn ddechrau yn yr ysgol tan ddechrau'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn bump oed. Lle bydd yr awdurdod derbyn ar gyfer ysgol gynradd yn cynnig lleoedd mewn dosbarthiadau derbyn i rieni cyn i'w plant gyrraedd yr oedran ysgol gorfodol, rhaid iddynt roi'r dewis i'r rhieni ohirio derbyn eu plentyn tan yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn ysgol. Effaith hynny yw bod y lle'n cael ei gadw i'r plentyn hwnnw ac nad yw'r lle ar gael i'w gynnig i blentyn arall. Fodd bynnag, ni fyddai'r rhieni'n cael gohirio'r derbyn y tu hwnt i ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bump oed, na'r tu hwnt i'r flwyddyn ysgol y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer. Rhaid gwneud hyn yn glir yn nhrefniadau derbyn yr ysgol.

Mae Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer derbyn plant y tu allan i'w grŵp oedran arferol mewn rhai amgylchiadau, er nad yw hyn yn sôn yn benodol am ddisgyblion a anwyd yn ystod yr haf. Mae'r Cod yn nodi'r canlynol:

Derbyn y tu allan i'r grŵp oedran arferol

3.30 Er y caiff y rhan fwyaf o blant eu derbyn i ysgol o fewn eu grŵp oedran cronolegol eu hunain, o bryd i'w gilydd, bydd rhieni'n ceisio lle y tu allan i'w grŵp oedran arferol ar gyfer plant dawnus a thalentog, neu'r rheini sydd wedi cael problemau neu wedi colli rhan o'r flwyddyn, a hynny'n aml oherwydd afiechyd. Er na fyddai gan amlaf yn briodol i blentyn gael ei roi mewn grŵp blwyddyn nad yw'n cyd-fynd â'u hoedran cronolegol, dylai awdurdodau derbyn ystyried y ceisiadau hyn yn ofalus a

phenderfynu ar sail amgylchiadau pob achos a drwy ymgynghori â'r rhieni ac â'r ysgol, ac yn benodol, beth fyddai fwyaf buddiol i'r plentyn. Dylid ystyried adroddiad y Seicolegydd Addysg hefyd pan fydd ar gael, a rhesymau amlwg dros wneud penderfyniad o'r fath. [fy mhwyslais i]

3.31 Os penderfynir bod sail dros ystyried cais 'y tu allan i'r flwyddyn', mae gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plant mewn ysgol hawl statudol i apelio. Fodd bynnag, nid oes hawl apelio os cynigiwyd lle ond nad yw yn y grŵp blwyddyn dymunol.

Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mewn tystiolaeth i'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 28 Mehefin 2018](#), dywedodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y canlynol o ran plant a anwyd yn ystod yr haf a'r Cod Derbyn i Ysgolion:

My expectation, Chair, would be that local authorities should follow the guidance that already exists in the schools admissions code. So, the current status quo, the current position would be that the code is clear that admissions authorities should consider requests for admissions outside the normal age group very carefully, and make a decision on individual children's needs and what is best for those children. So, the code already allows for flexibility in this regard, and our expectation would be that local authorities would take what's written in the code seriously, and look to apply it consistently and fairly.

With regard to the evidence around changes to admissions, there's not a huge amount of evidence, I should say, that delayed admissions improve outcomes for summer-born children. I think sometimes we're conflating summer-born children with perhaps a child that has additional learning needs or other issues. So, we need to understand and unpick some of the anxieties that parents have, and clearly those are real concerns, those are real worries, and it's highly emotive, but sometimes I think we need to be clear about whether we're talking about worries about inadequate support for additional learning needs as opposed to necessarily schools admissions. **However, having said all of that, it is our intention to review the admissions code in the autumn term.**

Yn yr un cyfarfod, cafodd y Pwyllgor [bapur i'w nodi ar ran y Grŵp Derbyniadau Hyblyg, Cymru](#). Mae hyn yn nodi barn y grŵp am y materion sy'n ymwneud â derbyniadau i ysgolion a phlant a anwyd yn ystod yr haf.

Y sefyllfa yn Lloegr:

Ym mis Rhagfyr 2014, diwygiodd yr Adran Addysg (Lloegr) ei [School Admissions Code](#) fel bod yn rhaid i bob penderfyniad gael ei wneud er budd pennaf y plentyn ac, wrth wneud hynny, dylai awdurdodau derbyn ystyried barn y rhieni a gwybodaeth am ddatblygiad y plentyn. Mae'r Cod yn nodi'r canlynol:

2.17 Parents may seek a place for their child outside of their normal age group, for example, if the child is gifted and talented or has experienced problems such as ill health. In addition, the parents of a summer born child may choose not to send that child to school until the September following their fifth birthday and may request that they are admitted out of their normal age group – to reception rather than year 1. Admission authorities **must** make clear in their admission arrangements the process for requesting admission out of the normal age group.

2.17A Admission authorities **must** make decisions on the basis of the circumstances of each case and in the best interests of the child concerned. This will include taking account of the parent's views; information about the child's academic, social and emotional development; where relevant, their medical history and the views of a medical professional; whether they have previously been educated out of their normal age group; and whether they may naturally have fallen into a lower age group if it were not for being born prematurely. They **must** also take into account the views of the head teacher of the school concerned. When informing a parent of their decision on the year group the child should be admitted to, the admission authority **must** set out clearly the reasons for their decision.

Mae'r Adran Addysg wedi cyhoeddi **cyngor anstatudol** ar [dderbyn plant a anwyd yn ystod yr haf \(Saesneg yn unig\)](#) (Rhagfyr 2014). Y prif bwyntiau yw:

- Mae'n ofynnol i awdurdodau derbyn ysgolion ddarparu ar gyfer derbyn yr holl blant ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair blwydd oed, ond mae hyblygrwydd i blant nad yw eu rhieni'n teimlo eu bod yn barod i ddechrau'r ysgol cyn iddynt gyrraedd oedran ysgol gorfodol.
- Os yw rhiant yn gofyn i blentyn gael ei dderbyn y tu allan i'w grŵp oedran arferol, awdurdod derbyn yr ysgol sy'n gyfrifol am benderfynnu i ba grŵp blwyddyn y dylai plentyn gael ei dderbyn. Mae'n ofynnol iddo wneud penderfyniad ar sail amgylchiadau'r achos ac er budd pennaf y plentyn dan sylw.
- Nid oes rhwystr statudol i dderbyn plant y tu allan i'w grŵp oedran arferol, ond nid oes gan rieni'r hawl i fynnu i'w plentyn gael ei dderbyn i grŵp oedran penodol.

Mae'r Adran Addysg wedi cyhoeddi adroddiad ymchwil, sef [Delayed school admissions for summer born pupils](#) (Mai 2018) sy'n cynnwys tystiolaeth ar bolisiau derbyn a gasglwyd gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Ymysg ei ganfyddiadau oedd:

- Bu cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am ohirio dechrau yn yr ysgol dros y ddwy flynedd pan gynhaliwyd yr arolwg o'r awdurdodau lleol (2015–2017).
- Yn gyffredinol, ymddengys y ceir llai o geisiadau mewn ardaloedd awdurdodau lleol lle mai'r polisi yw derbyn ceisiadau dim ond lle mae tystiolaeth gref yn eu hategu.
- Mae dadansoddiad drwy astudio'r unig ddata sydd ar gael hyd yn hyn ar y disgyblion hyn (data ffoneg) yn canfod cynnydd mewn sgoriau ffoneg o 0.87 marc ar gyfer plant a anwyd yn ystod yr haf a wnaeth ohirio dechrau yn yr ysgol rhwng 2014/15 a 2015/16, ond nid yw hynny'n welliant arwyddocaol yn ystadegol. Mae hyn yn awgrymu nad oes effaith arwyddocaol o ohirio derbyn i'r dosbarth Derbyn ar berfformiad disgyblion yn yr Archwiliad Sgrinio Ffoneg.

Ar 8 Medi 2015, [cyhoeddodd](#) Nick Gibb, Gweinidog Ysgolion yn Lloegr, fwriad Llywodraeth y DU i roi'r hawl i blant a anwyd yn ystod yr haf ddechrau yn y dosbarth Derbyn yn 5 mlwydd oed. Ysgrifennodd [lythyr agored](#) i annog ysgolion ac awdurdodau lleol i gymryd camau ar unwaith, cyn y newidiadau arfaethedig.

Yn ateb i [Gwestiwn Seneddol Ysgrifenedig ar 4 Mehefin 2018](#), dywedodd Nick Gibb:

The Department remains committed to amending the School Admissions Code to ensure summer born children can be admitted to reception at age five where this is what their parents want.

Y sefyllfa yn yr Alban

Mae'r system ysgolion yn yr Alban yn gweithredu gydag amserlen wahanol i un Cymru, felly nid plant a anwyd yn ystod yr haf yw'r rhai yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, mae darpariaethau tebyg mewn grym ar gyfer gohirio dechrau yn yr ysgol i'r plant a fyddai'n iau na'u cyfoedion grŵp blwyddyn ysgol.

Mae'r flwyddyn ysgol yn dechrau yng nghanol mis Awst. Mae pob grŵp blwyddyn ysgol yn cynnwys plant a anwyd rhwng dechrau mis Mawrth mewn un flwyddyn a diwedd mis Chwefror y flwyddyn ganlynol. Mae'r plant a anwyd rhwng mis Mawrth a mis Awst yn dechrau'r ysgol ym mis Awst neu ar ôl eu pen-blwydd yn bum mlwydd oed. Mae'r rhai a anwyd rhwng mis Medi a mis Chwefror yn dechrau'r ysgol ym mis Awst cyn eu pen-blwydd yn bum mlwydd oed. Fel y cyfryw, mae plant yn yr Alban fel arfer yn dechrau'r ysgol rhwng 4.5 a 5.5 mlwydd oed.

Fodd bynnag, caiff rhieni plant a anwyd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr ofyn am ohirio pryd y mae eu plentyn yn dechrau yn yr ysgol i'r mis Awst dilynol. Nid yw'r gohiriadau hyn yn awtomatig ac maent yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan yr awdurdod addysg lleol. Hefyd, caiff rhieni plant a anwyd ym mis Ionawr a mis Chwefror ddewis gohirio pryd y mae eu plentyn yn dechrau yn yr ysgol; caiff y ceisiadau hyn eu cymeradwyo'n awtomatig. Mae plant sydd â phen-blwydd ym mis Ionawr a mis Chwefror ac y maent yn dechrau yn yr ysgol yn hwyrach yn gymwys i gael blwyddyn arall o addysg cyn-ysgol a ariennir, ond nid yw plant sydd â phen-blwydd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr sy'n dechrau yn yr ysgol yn hwyrach yn gymwys i gael hyn. Bydd plant sy'n dechrau yn yr ysgol yn hwyrach yn tueddu i fod rhwng 5.5 a 6 oed pan maent yn dechrau yn yr ysgol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-832
Ein cyf/Our ref KW/01860/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@cymru.gsi.llyw.uk

6 Awst 2018

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf yn gofyn am fy marn ar y materion a godwyd yn y ddeiseb i ddiwygio'r [Cod derbyniadau ysgolion](#) sy'n ymwneud â phlant sydd wedi'u geni yn yr haf.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i blant yng Nghymru fod yn yr ysgol yn llawn amser yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bump oed. Fodd bynnag, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cynnig lleoedd mewn dosbarthiadau derbyn i rieni cyn bod eu plant yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol yn unol â'u trefniadau derbyn sydd wedi'u cyhoeddi. Mae plant yn cael cynnig darpariaeth addysg feithrin ran-amser am ddim hefyd yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed os yw rhieni am fanteisio ar hyn.

Mae'r cyfrifoldeb am dderbyn i ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir yn nwylo awdurdodau lleol; nhw sy'n gyfrifol am dderbyn i'r mwyafrif llethol o ysgolion yng Nghymru. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ymyrryd mewn penderfyniadau derbyn i ysgolion unigol. Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â derbyn i ysgolion, mae'n rhaid i awdurdodau derbyn weithredu'n unol â'r *Cod derbyniadau ysgolion*.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 127

Yr opsiynau ar hyn o bryd ar gyfer rhieni yng Nghymru sydd am wneud cais am le mewn ysgol y tu allan i grŵp oedran eu plant yw gohirio mynediad neu wneud cais i'w hawdurdod derbyn am le y tu allan i'r grŵp blwyddyn arferol.

Ystyr mynediad wedi'i ohirio yw sefyllfa lle gall rhiant ofyn i'w plentyn fynd i'r ysgol yn rhan-amser neu oedi dechrau'r ysgol tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol. Bydd yn rhaid i blentyn fynd i'r ysgol cyn diwedd tymor yr haf neu byddant yn colli eu lle yn y dosbarth a bydd yn rhaid i rieni wneud cais arall am le. Os nad yw rhiant yn derbyn lle a gynigir yn yr un flwyddyn ysgol, ni fyddai'r plentyn yn ymuno â'r dosbarth Derbyn nesaf fel arfer ond yn ymuno â'r dosbarth y cawsant gynnig lle ynddo yn y lle cyntaf. Nid fyddai'r rhiant yn gallu gohirio mynediad y tu hwnt i ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bump oed, na thu hwnt i'r flwyddyn ysgol y gwnaed y cais gwreiddiol ar ei chyfer.

Er na fyddai'n briodol fel arfer i roi plentyn mewn grŵp blwyddyn nad yw'n cyd-fynd â'i oedran cronolegol, dylai awdurdodau derbyn ystyried ceisiadau ar gyfer derbyn y tu allan i'r grŵp oed arferol yn ofalus a gwneud penderfyniadau ar sail amgylchiadau pob achos ac mewn ymgynghoriad â'r rhieni a'r ysgol, ac yn benodol mewn perthynas â'r hyn sydd o'r budd mwyaf i'r plentyn. Dylid rhoi ystyriaeth briodol i adroddiad y Seicolegydd Addysgol os oes un ar gael, a rhoi rhesymau clir dros y penderfyniadau hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'w awdurdod derbyn gymhwyso'r gofyniad hwn yn gydwybodol.

Mae'r ddeiseb yn crybwyll gweinyddiaethau eraill yn y DU, ond mae'n anodd cymharu tebyg wrth debyg gan fod y systemau addysg yn darparu ar gyfer gwahanol amrediadau oedran a bydd plant yn dechrau elfennau mwy ffurfiol o addysg ar wahanol adegau o ddatblygiad plant.

Hyd yma, nid wyf wedi fy argyhoeddi ynghylch sail eu honiadau mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn cynnig profiad addysgol unigryw i'n plant 3 i 7 oed. Mae'n fframwaith blaengar sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion amrywiol pob plentyn unigol, ym mha bynnag gyfnod datblygu y maent. Bwriedir i'r fframwaith hwn ar gyfer ein dysgwyr ieuengaf fod yn briodol 'w cyfnod dysgu yn hytrach na chanolbwyntio yn llwyr ar ganlyniadau cysylltiedig ag oedran i'w cyflawni.

Un o egwyddorion allweddol y Cyfnod Sylfaen yw bod plant yn symud ymlaen at y camau nesaf o'u dysgu pan fyddant wedi datblygu ddigon ac yn eu hamser eu hunain. Gall darpariaeth fel hyn helpu pob plentyn sy'n dechrau'r ysgol gydag amrywiaeth eang o anghenion o ran aeddfedrwydd a datblygu, dros gyfnod hirach cyn iddynt ddechrau ar gyfnod mwy ffurfiol o addysg ym mlwyddyn 3 (Cyfnod Allweddol 2). Mae'r Proffil Cyfnod Sylfaen yn fframwaith asesu sy'n cefnogi'r broses o nodi anghenion dysgu a datblygu plant – gan gynnwys datblygiad personol a chymdeithasol. Mae hyn yn cefnogi ymarferwyr i ddarparu cwricwlwm sy'n briodol i gyfnod datblygu pob plentyn.


Rwy'n cydnabod bod y dulliau yn Lloegr a'r Alban yn wahanol, ond mae eu systemau addysg ar gyfer blynyddoedd cynnar yn wahanol hefyd. Nid yw'n golygu o reidrwydd y dylai Cymru ddefnyddio'r un dull. Rwyf am gael sicrwydd eu bod yn deall cyd-destun Cymru yn llawn, gan gynnwys y dull o ymdrin â'r blynyddoedd cynnar, y cwricwlwm ac atebolrwydd wrth ddod i'w casgliadau. Mae gen i ddiddordeb diffuant yn y dystiolaeth i gefnogi eu honiadau.

Rwyf wedi nodi'r tri phwynt yn y ddeiseb y maent wedi gofyn iddynt gael eu hystyried mewn perthynas â diwygio'r *Cod derbyniadau ysgolion* ar gyfer plant sy'n cael eu geni yn yr haf. Bydd y *Cod derbyniadau ysgolion* yn cael ei adolygu'n ddiweddarach eleni. Wrth gynnal yr adolygiad gallaf eich sicrhau y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r cwestiwn o gryfhau'r Cod mewn perthynas â phlant sy'n cael eu geni yn yr haf. Bydd unrhyw newidiadau i'r Cod yn

amodol ar ymgynghoriad llawn lle gall pawb sydd â buddiant fynegi eu safbwyntiau ar unrhyw agwedd ar y Cod.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ystyried y ddeiseb.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

P-05-832 To Amend the School Admissions Code Relating to Summer-Born Children – Correspondence – Petitioner to the Committee, 18.09.18

To the Members of the Committee,

We are grateful to you for considering our petition, and wish to submit the following supplementary information to highlight some of the key points.

1. Necessity of Flexible School Admissions

Currently in Wales, the age at which a child should legally be in formal education is the term after their fifth birthday. However, generally, children start formal education in Reception at age four. Reception has been argued to be the most important school year (Ofsted, 2017), where the basics of literacy, rules, new routines and socialising take place. If children enjoy this important transition into education and are given the opportunity to thrive, this sets them on a positive journey for the years to follow. If this is not the case, children can disengage with the learning process, which has long-term impacts for them.

Owing to the timing of school admissions, summer-born children are put at a significant disadvantage compared to their peers. When applying for a full-time Reception place, many parents must do so for children who are still only three years of age, some of which who will not, for various reasons, be ready for such a big transition, e.g. premature birth, developmental delays and late summer-born children. In such cases, delaying a child's start would allow their problem(s) to improve or be resolved over the additional year. Such children would then start Reception rather than Year 1 at compulsory school age. It is noted that there is no advantage to be gained from deferred entry to later in the 'expected' cohort year (Crawford, Dearden & Meghir 2010).

The debate on flexible school admissions for summer-born children thus far has been erroneously focussed on attainment, with Government responses centring on how the Early Year Foundation Phase (EYFP) is flexible enough for every child to achieve such attainment. However, parents' real concerns at this stage are their child's physical, cognitive, emotional, and social readiness for school: e.g. making friends, communicating needs, toileting, ability to be attentive, self-care, and their child's current and future mental wellbeing. A number of studies have shown that starting formal education at an older age is of great benefit to children, particularly in terms of inattention, hyperactivity and emotional wellbeing. The concern of attainment comes later, where many younger children will struggle in comparison

with their older peers (almost a year older), particularly in tests from Year 2 National Assessments to GCSEs and A-Levels.

2. Reasoning for Amending the Code

Although, as the Cabinet Secretary for Education identifies in her letter, the responsibility for admissions for the vast majority of schools in Wales sits with local authorities, they must act in accordance with the School Admissions Code (2013). Currently, the Code provides that (emphasis added),

3.30 Although most children will be admitted to a school with their own chronological age group, from time to time parents seek places outside their normal age group for gifted and talented children, or those who have experienced problems or missed part of a year, often due to ill health. While it would not normally be appropriate for a child to be placed in a year group that is not concurrent with their chronological age, admission authorities **should** consider these requests carefully and make decisions on the basis of the circumstances of each case and in consultation with the parents and the school, and specifically in relation to what is most beneficial to the child. Due regard should be given to the Educational Psychologist's report, where available, and clear reasons ascertainable for such a decision to be made.

Such wording has been interpreted very narrowly by local authorities. Stating that 'it would not normally be appropriate' for a child to be educated out of cohort suggests to an authority that it should be a rare occurrence. References to a psychologist's report and clear reasons for a decision also create a preconception that a delayed start should only be granted for extraordinary reasons, and so parents may not be able to successfully request delayed admission if they simply feel their summer-born child is not ready. Above all, it should be highlighted that the Code does *not* mention summer-born children. This provides that local authorities refer to their 'out of cohort' policies when dealing with such requests, designed to address completely different issues to those of the admission of young children at the *start* of their school journey. In most cases, this results in a blanket 'no' approach to summer-born requests, even discounting relevant medical and developmental information, and resulting in stressful conflict with the authority for parents or having to seek legal counsel. A sample of case studies are provided as an Appendix (1) to this note.

The key aspect of the Code is that the decision is made on the basis of what is most beneficial to the child; this should be at its core. It must be amended to ensure that requests for the delayed admission of summer-born children are met where the parent believes it is in the best interests of the child.

In a June 2018 Open Question session with the Chair of the CYPE, the Cabinet Secretary for Education referred to a recent study relating to the deceleration of summer-born children. This study was extremely limited and flawed. Here is the link to the report highlighting its failings:

<https://summerbornchildren.org/2018/05/18/dfes-new-report-on-summer-born-admissions-excludes-sen-benefits/#more-6924>

3. Comparison with Other Administrations

It is appreciated that other education systems within the UK are different, but it is a reality that Scotland and England are more understanding of the issues facing summer-born children and make express provision for this. So that the Committee may compare admissions procedures:

England (emphasis added where relevant)

2.17 Parents may seek a place for their child outside of their normal age group, for example, if the child is gifted and talented or has experienced problems such as ill health. *In addition, the parents of a **summer born child** may choose not to send that child to school until the September following their fifth birthday and may request that they are admitted out of their normal age group - to reception rather than year 1. Admission authorities **must** make clear in their admission arrangements the process for requesting admission out of the normal age group.*

2.17A Admission authorities **must** make decisions on the basis of the circumstances of each case and in the best interests of the child concerned. This will include taking account of the parent's views; information about the child's academic, social and emotional development; where relevant, their medical history and the views of a medical professional; whether they have previously been educated out of their normal age group; and whether they may naturally have fallen into a lower age group if it were not for being born prematurely. They **must** also take into account the views of the head teacher of the school concerned. *When informing a parent of their decision on the year group the child should be admitted to, the admission authority **must** set out clearly the reasons for their decision.*

